

Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru) (Trosiannol - Arfer Swyddogaethau Asiantaeth mewn gweithfeydd Rhan B) 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd gan reoliad 33(1) Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, yn cyflwyno'r cyfarwyddyd canlynol-

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru) (Trosiannol - Arfer Swyddogaethau Asiantaeth mewn gweithfeydd Rhan B) 2010.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru.

(3) Daw i rym ar 6 Ebrill 2010 ar yr un pryd ag y daw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (a) ("Rheoliadau 2010").

Dehongli

2.—(1) Mae i'r termau a ddefnyddir yn y cyfarwyddyd hwn ac yn Rheoliadau 2010 yr ystyr sydd iddynt yno.

(2) ystyr "gwaith perthnasol" yw gwaith gwastraff sy'n weithgaredd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgaredd Rhan B ac sydd-

(a) yn dod o fewn disgrifiad yn Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau 2010; a

(b) yn bodloni'r amodau cyffredinol a phenodol a bennwyd yn Rhan 1 o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r disgrifiad.

(3) ystyr "gwaith trosiannol perthnasol" yw

(a) gwaith gwastraff a ddaw o fewn paragraff 2, 3, 24 neu 43 o Atodlen 3 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 (b) gan yr oedd y darpariaethau hynny mewn grym yn union cyn i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 (c) ddod i rym;

(b) gwaith gwastraff a ddaw o fewn paragraff 4(3) yr Atodlen honno gan fod y ddarpariaeth honno mewn grym ar yr adeg honno-

(i) os yw'r gwaith yn ymwneud ag araenu neu chwistrellu araen neu chwistrellu cynwysyddion metel; a

(ii) os yw'r araenu neu'r chwistrellu yn weithgaredd o fewn Rhan B o Adran 6.4 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny gan fod y ddarpariaeth honno mewn grym ar yr adeg honno.

Y derbynydd

3. Rhoddir y cyfarwyddyd hwn i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol.

Arfer swyddogaethau

4. Mae swyddogaeth asiantaeth mewn perthynas â gwaith perthnasol neu waith trosiannol perthnasol yn arferadwy gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau mewn perthynas â rhan B y gwaith dan sylw.

(a) O.S. 2010/675.

(b) O.S. 2007/3538, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/3381; mae offerynnau diwygio eraill hefyd yn bod ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol

(c) O.S. 2009/3381.

Dirymu

5. Dirymir Cyfarwyddyd Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Trosiannol - Arfer Swyddogaethau mewn gweithfeydd Rhan B) 2008 mewn perthynas â Chymru.

A handwritten signature in black ink, reading "Jane Davidson". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Dyddiad: 30 March 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r cyfarwyddyd)

Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i gyfeirio at Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 ("Rheoliadau 2010")). Mae'n gymwys o ran Cymru yn unig.

Mae'n darparu y bydd swyddogaethau mewn perthynas â rhai gweithfeydd gwastraff penodol sy'n swyddogaethau a berthyn i Asiantaeth yr Amgylchedd o dan reoliad 32 neu baragraff 2 o Atodlen 2 i Reoliadau 2010 ("swyddogaethau'r Asiantaeth") yn arferadwy gan yr awdurdod lleol. Mae Rheoliad 32 yn neilltuo swyddogaethau'r rheolydd o dan Reoliadau 2010 ac mae paragraff 2 Atodlen 3 yn dynodi awdurdod cofrestru'r esemptiad.

Y gweithfeydd gwastraff yr effeithir arnynt gan y cyfarwyddyd hwn yw'r rheini a ddiffinnir ganddo fel gweithfeydd perthnasol a gweithfeydd trosiannol perthnasol.

Mae'r term gwaith perthnasol yn ymwneud â gweithfeydd gwastraff sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgaredd Rhan B ac a fyddai'n weithfeydd gwastraff esempt o fewn Rheoliadau 2010 oni bai am effaith paragraff (a)(i) o'r diffiniad o waith gwastraff esempt yn y Rheoliadau hynny. Effaith y paragraff hwnnw yw na ellir cynnal gwaith gwastraff esempt mewn gweithfa o fewn ystyr Rheoliadau 2010.

Roedd gweithfeydd trosiannol perthnasol yn weithfeydd gwastraff esempt o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 fel y'u deddfwyd yn wreiddiol ("Rheoliadau 2007") lle'r oedd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel awdurdod cofrestru'r esemptiad, gweler paragraff 2(2)(a) a (b) Atodlen 2 i Reoliadau 2007.

O dan reoliad 103 Rheoliadau 2010 fe'u cymerir o hyd yn weithfeydd gwastraff esempt tan ddyddiad penodedig a fydd yn amrywio yn unol â'r gwaith. Wedi hynny byddant yn gyfleusterau wedi'u rheoleiddio o fewn Rheoliadau 2010. O dan reoliad 108(2), mae'r awdurdod lleol yn parhau'n awdurdod cofrestru esemptiad yn ystod y cyfnod trosiannol hwnnw.

Effaith y cyfarwyddyd yw y bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel rheolydd y cyfleuster rheoleiddiedig mewn perthynas â'r gweithfeydd hynny ar ddiwedd y cyfnod trosiannol y darperir ar ei gyfer gan reoliad 103.

Bydd y cyfarwyddyd yn parhau mewn grym hyd oni chaiff ei ddirymu gan gyfarwyddyd pellach neu o ganlyniad i weithredu'r gyfraith. Gall y cyfarwyddyd beidio â pharhau mewn grym mewn perthynas â gweithfeydd penodol neu ddosbarthiadau penodol o weithfeydd os caiff cyfarwyddyd pellach ei gyflwyno i'r perwyl hwnnw.

